

Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru

BWRDD GWEITHLU GOGLEDD CYMRU



CEFNDIR

Mae Bwrdd Gweithlu Gogledd Cymru'n adrodd i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob yn ail fis i roi trosolwg o amrediad o feysydd gweithlu strategol. O fewn y 12 mis diwethaf, bu estyniad ar yr aelodaeth, gan adlewyrchu amrediad eang o sefydliadau a chyfoethogi'r trafodaethau, sicrhau ein bod â'r bobl gywir yn gweithio yn y Bwrdd i symud y Rhaglen Gweithlu Genedlaethol yn ei blaen.

BLAENORIAETHAU'R BWRDD

Mae Bwrdd y Gweithlu'n parhau i fwrw ymlaen â'i flaenoriaethau, sy'n cynnwys Gweithredu cyfrifoldebau strategol cyffredinol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cyfleoedd Integreiddio'r gweithlu gydag Iechyd, Datblygu Strategaeth Gweithlu Gogledd Cymru, Cynnal Gweithlu Cynaliadwy a Medrus a chyflawni a datblygu Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn rhanbarthol.

STRATEGAETH GWEITHLU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD CYMUNEDOL GOGLEDD CYMRU

Mae datblygiad Strategaeth Gweithlu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru wedi bod yn uchelgeisiol, oherwydd maint a chymhlethdodau'r gweithlu gofal cymdeithasol ac iechyd cymunedol, rydym wedi cymryd dull pragmatig gan ganolbwyntio ar feysydd eraill o angen / gofal, wrth gyfeirio at feysydd eraill. Mae wedi'i datblygu drwy ystod o drafodaethau gyda sefydliadau ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n anelu at osod ein bwriadau strategol cydweithredol ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol ac iechyd cymunedol

Rydym wedi ymgynghori â'n partneriaid a bydd ymarfer ymgynghori ehangach yn cael ei gynnal ar y drafft

terfynol. Mae'r Bwrdd Gweithlu Rhanbarthol yn anelu at gwblhau'r strategaeth yn yr hydref a dechrau gweithredu'r meysydd blaenoriaeth drwy grwpiau cyflawni.

Mae strategaeth ddrafft wedi'i chwblhau, fodd bynnag mae diwygiadau'n cael eu cymhwyso ar hyn o bryd i adlewyrchu'r heriau sy'n wynebu'r gweithlu a chytundeb o flaenoriaethau'r gweithlu. Mae hyn yn cynnwys sicrhau ein bod â chefnogaeth ac ymgysylltiad ein holl bartneriaid gyda threfniant llywodraethu clir, gyda chytundeb ar gyfer egwyddorion gweithredu a threfniadau llywodraethu, â llinellau clir o atebolrwydd a chyfrifoldebau wrth gyflawni'r blaenoriaethau sy'n cynnwys:

- Sefydlogi'r gweithlu
- Dysgu a datblygiad
- Gwybodaeth a chynllunio'r gweithlu

Rydym yn anelu at gwblhau'r strategaeth yn yr hydref a dechrau gweithredu'r meysydd blaenoriaeth drwy grwpiau cyflawni. Her yw sicrhau bod y blaenoriaethau hyn yn unol â ffrydiau gwaith Cenedlaethol a Rhanbarthol, fel Blaenoriaethau Gofal Cymdeithasol Cymru wrth i'r rhain ddatblygu, a hefyd i fod yn glir na ddylai'r Rhaglenni Rhanbarthol ddyblygu ymdrechion ac adnoddau.

Bydd y strategaeth yn penderfynu ar raglen gweithlu'r dyfodol ar gyfer y bwrdd rhanbarthol, sy'n canolbwyntio ar y ffrydiau gwaith â blaenoriaeth; yn ogystal â hyn, bydd y bwrdd yn parhau i weithio gyda Rhaglenni Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol, mewn perthynas â gweithlu i gefnogi bod y rhain yn cael eu cyflawni.

Alison Atkinson

Rheolwr Busnes Rhanbarthol – Gweithlu
Regional Business Manager – Workforce
Ffôn / Tel: 07919 164933 / 01824 712040

E-bost / Email: alison.atkinson@sirddinbych.gov.uk
Alison.Atkinson@denbighshire.gov.uk